
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Llandeilo, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 05 Awst 2026

Dyddiad cyhoeddi: 05 Tachwedd 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr gan fod ieithoedd a fformatau amgen yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-604-5

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom 5

2. Crynodeb o'r arolygiad 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym 9

Ansawdd Profiad y Claf 9

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol 12

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth 16

4. Y camau nesaf 19

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad 20

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith 21



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Llandeilo, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 05 Awst 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o naw holiadur gan gleifion a chwblhawyd tri gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom gan y cleifion i'w gweld drwy'r adroddiad, ond oherwydd y nifer bach o staff a ymatebodd, nid yw eu sylwadau wedi'u cynnwys.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol am eu profiad ym Mhractis Deintyddol Llandeilo. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch, eu bod yn teimlo bod y staff wedi gwrando arnynt a'u bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal. Nododd pob un o'r cleifion fod y gwasanaeth roeddent yn ei gael gan y practis yn ‘dda iawn’.

Roedd deunyddiau hybu iechyd ar gael yn hwylus, ac roedd gwasanaethau i gleifion ar gael yn ddwyieithog gan staff sy'n siarad Cymraeg. Gwelsom fod y ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg wedi'i ymgorffori yn y ffyrdd roedd y practis yn gweithio. Dywedodd y cleifion wrthym fod iechyd y geg yn cael ei esbonio'n glir iddynt, a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal priodol.

Gwelsom fod prosesau rheoli apwyntiadau effeithiol ar waith a oedd yn defnyddio amser yr ymarferwyr i ddiwallu anghenion y cleifion a'r lleoliad. Dywedodd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC ei bod yn hawdd iddynt gael apwyntiad pan oedd angen un arnynt ac y byddent yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Roedd system brysbennu cleifion ar waith i sicrhau bod y cleifion â'r anghenion mwyaf brys yn cael eu blaenoriaethu. Dywedodd y staff wrthym na fyddai unrhyw glaf yn gorfod aros mwy na 24 awr i gael ei weld mewn argyfwng, ac roedd y practis hefyd yn cymryd rhan yng ngwasanaeth Mynediad Brys y GIG.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cleifion yn cael eu trin â gofal urddasol a pharchus, gan sicrhau bod eu hawliau'n cael eu cynnal yn llawn
- Roedd apwyntiadau yn cael eu rheoli'n briodol ac yn unol ag anghenion cleifion
- Roedd gwasanaeth cwbl ddwyieithog ar gael i'r cleifion hynny a oedd yn dymuno cael eu trin yn y Gymraeg.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd yr holl ddyfeisiau deintyddol ac amgylchedd mewnol y practis i'w gweld mewn cyflwr da, a oedd yn golygu y gellid eu dihalogi'n effeithiol. Nodwyd gennym fod angen gwneud gwelliannau i'r tu allan i'r practis, a chadarnhaodd y staff fod y practis yn mynd i'r afael â hyn. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y staff bob amser yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau a bod y practis yn 'lân iawn'.

Gwelsom fod y gweithdrefnau ar gyfer dihalogi cyfarpar amldro yn effeithiol, a oedd yn galluogi'r practis i roi gofal diogel i'r cleifion. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hwylus i'r holl staff ac roeddent wedi cael hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau.

Roedd cyfarpar brys y practis yn cael ei wirio'n rheolaidd gan y staff ac wrth arolygu, gwnaethom nodi fod pob eitem yn bresennol ac o fewn eu dyddiadau dod i ben. Roedd y cleifion yn symud yn effeithlon ar hyd llwybrau trin mewnol ac allanol. Roedd atgyfeiriadau brys yn cael eu cofnodi'n briodol a'u holrhain yn rhagweithiol mewn modd amserol gan y practis.

Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom yn gyflawn ar y cyfan. Fodd bynnag, gwelom nad oedd rhai cofnodion yn cynnwys gwybodaeth am sgrinio ar gyfer canser y geg na chydsyniad ar sail gwybodaeth, ac roedd yn ofynnol i'r practis wella hyn. Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent hefyd yn gwybod pryd i geisio cyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cyflawn eu cadw yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y trefniadau diogelu yn addas ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn hwylus i'r staff ac yn cael ei ddefnyddio'n briodol
- Nodwyd gennym fod y dyfeisiau meddygol a'r cyfarpar clinigol i'w gweld mewn cyflwr da, yn gweithio'n gywir ac yn addas at y diben.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw ac arsylwi arnynt yn siarad â chleifion yn ystod yr arolygiad yn broffesiynol, yn llawn gwybodaeth ac yn garedig. Roedd y trefniadau llywodraethu yn gadarn ac yn cael eu goruchwylio gan dîm cefnogol o reolwyr, a oedd yn galluogi'r staff i ddarparu triniaethau effeithiol i gleifion. Roedd trefniadau sefydlu a chymorth parhaus i'r staff yn ymddangos yn addas.

Ar y cyfan, roedd cofnodion y staff y gwnaethom eu hadolygu yn dal yr holl wybodaeth berthnasol i sicrhau darlun llawn o'u hanes cyflogaeth. Fodd bynnag, nid oedd un cofnod yn cynnwys tystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd nac asesiad risg diweddar, ac mae'n ofynnol i'r practis wella hyn. Roedd gan y staff lefel uchel o gydymffurfiaeth â hyfforddiant, a gwelsom ddogfennau a gynhelir yn dda i'r holl staff.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion. Roedd y polisi cwynion yn ymddangos yn addas ac roedd ar gael i'r cleifion heb iddynt orfod gofyn am gopi yn yr ystafell aros.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y cynhelir gwiriadau addasrwydd i weithio parhaus ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn y practis.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd strwythurau clir a rheolwyr cefnogol yn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol.
- Roedd polisïau a chofnodion staffio'r practis yn glir i'r staff ddod o hyd iddynt, ac roedd y polisïau yn hawdd eu darllen a'u deall.
- Roedd adborth a chwynion yn cael eu trafod yn briodol gan reolwyr.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol. Nododd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth roeddent yn ei gael gan y practis yn 'dda iawn'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *" Hapus iawn â'r driniaeth."*
>
> *"Practis deintyddol ardderchog."*
>
> *"Mae'r gofal gan y hylenydd deintyddol yn rhagorol, gydag amser, esboniad ac addysg heb eu hail."*

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom wybodaeth wedi'i harddangos yn yr ardal aros am roi'r gorau i smygu a chynnal iechyd y geg da. Roedd y daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben yn gyfredol ac ar gael i'r cleifion eu gweld yn y dderbynfa ac ar wefan y practis. Roedd y ffioedd ar gyfer gwasanaethau preifat a gwasanaethau'r GIG wedi'u harddangos yn ardaloedd aros y cleifion. Roedd enwau'r ymarferwyr a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ynghyd ag oriau agor a manylion cyswllt brys y practis yn cael eu harddangos yn glir mewn man lle y gellid eu gweld yn hawdd.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael gofal urddasol a pharchus drwy gydol eu taith fel claf. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC wrthym fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch a'u bod yn teimlo bod y staff wedi gwrando arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau. Dywedodd pawb a ymatebodd eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cael y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir, p'un a oedd ganddynt unrhyw nodweddion gwarchodedig ai peidio. ` Dywedodd yr ymatebwyr hefyd eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth a bod y staff wedi esbonio iddynt beth roeddent yn ei wneud drwy gydol eu hapwyntiad.

Roedd amgylchedd y practis yn hyrwyddo gofal urddasol ac roedd y staff yn cymryd camau i sicrhau preifatrwydd cleifion wrth gael eu trin yn y deintyddfeydd. Roedd y dderbynfa a'r ardal aros wedi'u cysylltu ond ni wnaethom glywed unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrafod wyneb yn wyneb na thros y ffôn. Dywedodd y staff wrthym nad oedd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei hailadrodd dros y ffôn, a bod swyddfa i

fyny'r grisiau yn cael ei defnyddio pan oedd angen cynnal sgyrsiau cyfrinachol.

Gwelsom fod y contractau ar gyfer y staff yn cynnwys cymalau cyfrinachedd a bod cyfrifoldebau'r staff o ran diogelu gwybodaeth cleifion hefyd wedi'u cynnwys yn llawlyfr y gweithwyr. Gwelsom fod naw egwyddor craidd safonau mosegol a baratowyd gan y Cyngor Deintyddol cyffredinol wedi'u harddangos yn ddwyieithog.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion (8/9) a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, gan gynnwys risgiau a manteision pob opsiwn. Dywedodd yr holl gleifion fod iechyd eu ceg wedi'i esbonio iddynt mewn ffordd yr oeddent yn gallu ei deall a gwnaethant ddweud eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (8/9) fod y costau wedi'u cyfleu'n glir iddynt cyn eu triniaeth. Nododd pob un o'r cleifion hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r lleoliad yn datrys unrhyw bryderon ar ôl triniaeth.

Amserol

Gofal amserol

Roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio amser yr ymarferwyr yn unol ag anghenion cleifion. Esboniodd y staff fod cyfnod aros o ryw bythefnos rhwng apwyntiadau am driniaethau i gleifion preifat a chleifion y GIG. Byddai'r cleifion yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, a gellid trefnu apwyntiadau cyffredinol ar-lein. Dywedodd y staff wrthym mai anaml y byddai apwyntiadau yn rhedeg yn hwyr, ond pe bai hynny'n digwydd, y byddai'r clinigwyr yn hysbysu'r dderbynfa fel bod modd rhoi gwybod i'r cleifion. Byddai achosion o oedi hirach yn cael eu cyfleu i gleifion dros y ffôn a byddai apwyntiadau eraill yn cael eu cynnig. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi ei chael hi'n hawdd cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Cawsom wybod sut roedd apwyntiadau'n cael eu trefnu yn unol â'r adeg pan oedd y cleifion ar gael lle roedd hynny'n bosibl, gan gynnwys trefnu apwyntiadau pediatrig y tu allan i amser ysgol.

Gwelsom fod tîm y dderbynfa yn brysbennu dros y ffôn â chleifion, gan ymgynghori â chlinigwyr lle bo angen. Roedd amser yn cael ei neilltuo yn nyddiadur y practis bob dydd ar gyfer apwyntiadau brys, gan gynnwys Sesiynau Mynediad y GIG. Dywedwyd wrthym na fyddai unrhyw glaf yn aros mwy na 24 awr i gael ei weld mewn argyfwng. Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau ar gael i'r cleifion. Dywedodd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael canllawiau clir ar yr hyn i'w wneud mewn argyfwng neu pe baent yn datblygu haint, a dywedodd y rhan fwyaf y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod trefniadau cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod dulliau cyfathrebu effeithiol rhwng y clinigwyr a'r cleifion. Amlinellodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd cyfathrebu â chleifion yn eu dewis iaith. Roedd hyn yn cynnwys y cymorth iaith a ddarparodd y practis i garfan fach o ffoaduriaid o Wcráin yn yr ardal leol. Roedd gwasanaeth Language Line yn cael ei ddefnyddio i gyfathrebu â chleifion yn ôl yr angen, ac roedd rhywfaint o wybodaeth i gleifion ar gael mewn fformatau gwahanol, megis fersiynau hawdd eu deall neu ffont mawr. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn darparu gwybodaeth fwy arbenigol ar gais cleifion.

Roedd y practis yn wasanaeth cwbl ddwyieithog gyda'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr, y nyrsys a'r staff gweinyddol yn siarad Cymraeg. Roedd y practis yn gwneud ymdrech i ddarparu'r rhan fwyaf o ddogfennau yn Gymraeg ac yn Saesneg, lle y bo'n bosibl. Dywedodd y staff wrthym fod y bwrdd iechyd wedi eu cefnogi i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith i gleifion. Gwelsom aelodau o'r staff yn gwisgo bathodynnau 'Iaith Gwaith' i ddangos i gleifion eu bod yn siarad Cymraeg.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom fod y practis yn cefnogi trin cleifion a staff yn gyfartal yn rhagweithiol. Roedd polisïau a gweithdrefnau addas ar waith, ac roedd y staff yn ymgymryd â hyfforddiant penodol i ddiogelu hawliau cleifion. Roedd prosesau ar waith i atal achosion o aflonyddu neu wahaniaethu.

Rhoddodd y staff enghreifftiau lle roedd newidiadau wedi cael eu gwneud i'r amgylchedd fel addasiad rhesymol i gleifion a chyflogeion, gan gynnwys cadeiriau arbenigol ar gyfer aelodau o'r staff ac ysgogiadau system i gefnogi cleifion â'u hanableddau. Gwelsom fod hawliau cleifion trawsryweddol yn cael eu cynnal drwy ganiatáu i gleifion ddewis y rhagenwau, yr enwau a'r rhywedd a ffefrir ganddynt ar eu cofnodion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd yr adeilad, i bob golwg, mewn cyflwr da yn fewnol, gyda'r deintyddfeydd a'r ystafell ddihalogi wedi'u gorffen i safon uchel. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod y tu allan i'r eiddo yn edrych yn ddiflas a bod paent yn plicio i ffwrdd. Dywedodd y practis ei fod wedi bod yn aros rhai misoedd i gontractwr gwblhau'r gwaith gofynnol, ac ers hynny roedd wedi cyflogi contractwr gwahanol i ymgymryd â'r gwaith atgyweirio. Roedd y gwaith i fod i ddechrau yn gynnar ym mis Medi 2026. Roedd y practis wedi'i drefnu dros ddau lawr, gydag ardal aros o faint rhesymol ar gyfer y nifer o gleifion a'r tair deintyddfa. Clywsom linellau ffôn yn gweithio'n iawn a gwelsom ardaloedd newid addas â chyfleusterau storio personol ar gael i'r staff. Gwelsom fod toiledau'r staff a'r cleifion yn lân ac yn cynnwys digon o gyfarpar. Roedd cyfleusterau cyhoeddus cyfagos yn cael eu hysbysebu i'r cleifion hynny ag anawsterau symudedd.

Gwelsom fod cyfarpar deintyddol y practis i'w weld mewn cyflwr da ac roedd digon o eitemau ar gael i allu eu dihalogi'n effeithiol rhwng pob defnydd. Gwelsom fod eitemau untro yn cael eu defnyddio lle bo hynny'n briodol, a bod y cyfleusterau clinigol a'r cyfarpar a oedd yn cael eu defnyddio yn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol i cleifion.

Roedd polisïau a gweithdrefnau boddhaol ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant cleifion a staff. Roedd tystysgrifau diogelwch ar gael ar gyfer profion offer cludadwy, profion bob pum mlynedd ar y gwifrau trydanol sefydlog a'r gwiriadau diogelwch nwy blynyddol. Gwelsom fod asesiad risg iechyd a diogelwch wedi'i gwblhau a'i fod yn bodloni'r safonau disgwyliedig. Anfonwyd copi o asesiad risg tân y practis a oedd wedi'i gwblhau gan berson cymwys at AGIC yn syth ar ôl yr arolygiad.

Gwelsom fod trefniadau diogelwch tân addas ar waith, gan gynnwys cynnal a chadw a phrofi'r cyfarpar diogelwch tân yn rheolaidd, ynghyd ag arwyddion clir ar gyfer allanfeydd tân ac arwyddion dim smygu. Roedd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr y practis a gwybodaeth gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'u harddangos.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn amlinellu'r prosesau yr oedd disgwyl i'r staff eu dilyn i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Dywedodd yr ymatebwyr i holiadur cleifion AGIC fod y practis yn ‘lân iawn’ a'u bod yn teimlo bod y staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau. Roedd yr holl ardaloedd i gleifion yn daclus ac yn drefnus, ac roedd yn ymddangos y gellid dihalogi pob arwyneb yn effeithiol. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod blychau'n cael eu storio ar y llawr mewn ystafell stoc, a allai olygu nad oedd yn bosibl dihalogi'r lloriau yn effeithiol. Yn ogystal, gwelsom fwy o

flychau'n cael eu storio ar y llawr ac wedi'u pentyrru ar ben ei gilydd ar yr islawr. Roedd hyn yn peri'r un pryderon o ran dihalogi a pherygl ychwanegol i'r staff pe bai'r blychau'n cwympo neu'n rhwystro allanfa mewn argyfwng. Cadarnhaodd y practis yn fuan ar ôl yr arolygiad ei fod wedi mynd i'r afael â'r materion hyn a'u hychwanegu at y rhestrau gwirio iechyd a diogelwch er mwyn cynnal cydymffurfiaeth yn y dyfodol.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael yn hwylus i'r holl staff a bod arferion hylendid dwylo cyffredinol yn cael eu hyrwyddo drwy weithdrefnau ac arwyddion yn yr ardaloedd i gleifion a staff. Gwnaethom nodi bod trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli anafiadau a achosir gan nodwydd, gydag asesiadau risg yn dogfennu'r peryglon sy'n gysylltiedig ag offer miniog. Roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol yn cael eu darparu drwy'r bwrdd iechyd lleol, ac roedd y manylion hyn ar gael yn hwylus i'r staff.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu trin, eu storio, eu defnyddio a'u gwaredu yn briodol ac yn unol â pholisi addas. Gwelsom fod padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio a bod gwiriadau o dymheredd yr oergell yn cael eu cofnodi'n ddyddiol.

Roedd gan y practis bolisi argyfyngau meddygol a oedd wedi cael ei adolygu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd yr holl gyfarpar gofynnol yn y practis, o fewn eu dyddiadau dod i ben ac ar gael yn hwylus i'w defnyddio mewn lleoliad canolog. Roedd y silindrau ocsigen wedi cael eu gwasanaethu'n briodol, ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar sut i'w defnyddio. Gwelsom dystiolaeth bod holl staff y practis i fod i fynychu cwrs adfywio cardiopwlmonaidd ym mis Gorffennaf 2026, mis cyn dyddiadau dod i ben eu hyfforddiant. Fodd bynnag, gohiriwyd y cwrs hwn gan ddarparwr yr hyfforddiant, sy'n golygu nad yw cydymffurfiaeth y staff â'u hyfforddiant blynyddol gorfodol yn gyfredol. Nodwyd gennym fod y practis wedi gwneud ymdrechion i drefnu lleoedd gyda'r darparwr arall a argymhellwyd a bod yr holl staff wedi ymgymryd â hyfforddiant ar-lein a sesiynau gloywi mewnol i gadw eu gwybodaeth yn gyfredol. Cadarnhaodd y practis fod cwrs wedi'i drefnu ar gyfer yr holl staff i gwblhau hyfforddiant ar adfywio cardiopwlmonaidd ynghyd â hyfforddiant gloywi ar gymorth cyntaf yn y gwaith i dri aelod o'r tîm.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gweithdrefnau diogelu priodol a chyfredol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion. Roedd y gweithdrefnau'n cynnwys manylion cyswllt o fewn yr awdurdod lleol ac yn enwi arweinydd diogelu. Roedd copi o Weithdrefnau Diogelu Cymru ar gael i gyd-fynd â'r polisi hwn. Roedd diweddariadau i'r polisïau a'r gweithdrefnau diogelu yn cael eu cyfleu drwy hyfforddiant a'r bwrdd iechyd lleol. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant i lefel briodol ar ddiogelu plant ac oedolion.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Nodwyd gennym fod y dyfeisiau meddygol a'r cyfarpar clinigol i'w gweld mewn cyflwr da, yn gweithio'n gywir ac yn addas at y diben. Gwelsom fod holl ddyfeisiau a chyfarpar y practis yn cael eu defnyddio mewn modd a oedd yn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol ac roedd y staff a welsom yn ystod yr arolygiad yn hyderus wrth ddefnyddio'r cyfarpar. Cadarnhaodd y cofnodion y gwnaethom eu hadolygu fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar ddefnyddio dyfeisiau meddygol a chyfarpar clinigol yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd trefniadau gwasanaethu addas ar waith ac roedd y practis yn ymateb yn gyflym i unrhyw fethiant system ar gyfer yr holl gyfarpar a archwiliwyd gennym.

Roedd ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis wedi'i gwblhau'n llawn ac yn drefnus. Gwelsom fod copïau o'r rheolau lleol ar gael yn hwylus wrth ymyl pob dyfais pelydr-X. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar gyfer eu rolau ar gysylltiadau ag ymbelydredd. Roedd y clinigwyr yn amlinellu'n glir y trafodaethau a gynhaliwyd mewn perthynas â risgiau a manteision dod i gysylltiad ag ymbelydredd yng nghofnodion cleifion a gwelsom fod y wybodaeth hon wedi'i harddangos hefyd.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod y staff yn asesu cleifion ac yn gwneud diagnosis o anghenion cleifion yn ddiogel. Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom yn dangos bod triniaethau yn cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol, ac yn unol â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol. Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent hefyd yn gwybod pryd i geisio cyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen.

Gwelsom fod prosesau addas a rhestrau gwirio clinigol ar waith i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfanswm o 10 claf yn ystod ein harolygiad. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw ar system ddigidol ddiogel, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Roedd gan yr holl gofnodion a adolygwyd gennym dystiolaeth o siartiau sylfaenol llawn, archwiliadau y tu mewn a'r tu allan i'r geg, archwiliadau meinweoedd meddal a'r triniaethau a ddarparwyd. Dywedodd yr ymatebwyr i holiadur AGIC fod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn iddynt gael triniaeth. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod rhywfaint o wybodaeth wedi'i chofnodi'n anghywir yn nodiadau'r cleifion, ac roedd angen gwella hyn. Gwelsom nad oedd tri chofnod yn amlinellu sgrinio ar gyfer canser y geg nac asesiadau risg ar geudodau, perio na thraul dannedd. Nid oedd dau gofnod ar wahân yn cofnodi cydsyniad ar sail gwybodaeth yn ddigonol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cyflawn eu cadw yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.

Effeithlon

Gwelsom fod y clinigwyr yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr a oedd yn diwallu anghenion eu cleifion. Roedd y cleifion yn symud yn effeithlon ar hyd llwybrau trin mewnol ac allanol. Roedd atgyfeiriadau brys yn cael eu cofnodi'n briodol a'u holrhain yn rhagweithiol mewn modd amserol gan y practis. Gwelsom fod apwyntiadau yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan aelodau o staff â chymysgedd priodol o sgiliau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Nodwyd gennym fod strwythurau rheoli clir ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Roedd rheolwr y practis yn hyderus a dywedodd wrthym ei fod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gyflawni ei rôl arwain yn effeithiol. Roedd rheolwr y practis yn cael cymorth gan reolwr ardal a pherchennog y grŵp. Gwelsom fod y rheolwyr yn weladwy a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent fynd at y rheolwyr i drafod newidiadau neu godi pryderon.

Clywsom fod cyfarfodydd staff anffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a nodwyd gennym fod cyfarfodydd staff ffurfiol yn cael eu cynnal bob tri mis a bod pob aelod o'r staff yn bresennol ynddynt. Wrth adolygu cofnodion cyfarfodydd, gwelsom fod trafodaethau wedi cael eu cynnal am recriwtio, offer cydymffurfiaeth ddeintyddol a hyfforddiant.

Roedd system ddigidol newydd wedi'i chaffael i nodi, cofnodi a rheoli risgiau, materion ac unrhyw gamau lliniaru. Y system hon hefyd oedd y storfa ar gyfer holl bolisïau a chanllawiau'r practis. Roedd y polisïau a welsom yn gyfredol ac yn gynhwysfawr, a gwelsom fod newidiadau yn cael eu rhannu â'r staff mewn modd effeithiol.

Gwelsom fod rheolwr y practis yn rhannu hysbysiadau diogelwch â'r staff yn ystod cyfarfodydd, a byddai unrhyw hysbysiadau perthnasol yn cael eu harddangos.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Nodwyd gennym fod amgylchedd gweithio cadarnhaol yn y practis. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn wybodus ac yn broffesiynol, ac roedd y rhyngweithio a welsom rhwng y staff yn dangos eu bod yn cefnogi ei gilydd mewn modd proffesiynol. Gwelsom fod gweithdrefnau sefydlu yn cael eu goruchwylio gan reolwr y practis ac roedd y dystiolaeth a welsom yn dangos bod y gweithdrefnau hyn yn addas. Roedd y practis yn gweithredu system rota i sicrhau bod nifer priodol o staff wedi'u hyfforddi'n addas yn gweithio ar unrhyw adeg benodol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion personél pum aelod o staff sy'n gweithio yn y practis. Yn y cofnodion hyn, gwelsom fod gan bob aelod o'r staff gofrestriadau cyfredol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, bod imiwnedd Hepatitis B wedi'i ddogfennu ar eu cyfer a'u bod wedi bod yn destun gwiriadau geirda cyn cyflogi neu asesiadau risg ar gyfer gwybodaeth a oedd ar goll cyn cyflogi. Roedd gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi'i gofnodi yn ffeil pob aelod o'r staff. Fodd bynnag, cafodd un aelod o'r tîm gweinyddol ei dystysgrif DBS yn 2016. Cynhaliwyd asesiad risg

yn 2022, ond nid oedd wedi cael ei adolygu ers y dyddiad hwnnw. Mae gwiriadau DBS priodol yn rhoi sicrwydd bod y staff yn addas ac yn gymwys i gyflawni eu rolau yn y practis.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y cynhelir gwiriadau addasrwydd i weithio parhaus ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn y practis.

Roedd y cofnodion staff a welsom yn dangos cydymffurfiaeth lawn â'r holl hyfforddiant gorfodol, heblaw am gymwysterau adfywio cardiopwlmonaidd a grybwyllir mewn man arall yn yr adroddiad hwn. Roedd pob aelod o'r staff yn cael amser i ymgymryd â hyfforddiant, a dywedwyd wrthym fod y staff yn cael eu cefnogi i gwblhau hyfforddiant ychwanegol sy'n berthnasol i'w rolau a oedd yn amlwg yn y cofnodion a welsom.

Roedd arfarniadau'n cael eu cynnal yn flynyddol ac eglurodd y rheolwyr broses addas ar gyfer rheoli unrhyw broblemau'n ymwneud â pherfformiad a chydymffurfiaeth ag arfarniadau. Roedd pob aelod o'r staff yn y sampl a welsom wedi cael arfarniad.

Roedd polisi chwythu'r chwiban y practis yn rhoi canllawiau i'r staff ar sut y gallent fynegi pryderon. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn gwybod â phwy i siarad pe bai ganddynt bryder ac y byddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i wneud hynny.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion. Roedd ffurflenni adborth ar gael yn y dderbynfa ac roedd y practis hefyd yn cofnodi adborth ar lafar gan gleifion. Dywedwyd wrthym fod cleifion hefyd wedi gadael adborth ar-lein drwy'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer y practis. Roedd adborth yn cael ei adolygu'n rheolaidd a dywedwyd wrthym fod arolygon cleifion blynyddol yn digwydd hefyd. Roedd y practis a'r rheolwyr ardal yn archwilio adborth gan gleifion bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn nodi unrhyw themâu cyffredin ac yn mynd i'r afael â nhw. Roedd ymatebion i adborth yn cael eu hysbysebu mewn fformat ‘dywedoch chi, gwnaethom ni’ ar wefan y practis.

Roedd y polisi cwynion yn cyd-fynd â Phroses Cwynion, Digwyddiadau ac Iawndal GIG Cymru ac roedd ar gael i gleifion heb fod angen iddynt ofyn am gopi. Roedd y weithdrefn gwyno yn enwi'r aelod o staff y dylai cleifion gysylltu ag ef. Roedd cwynion llafar yn cael eu cofnodi ar system cwynion y practis. Roedd y dull o uwchgyfeirio cwyn wedi'i nodi yn y polisi cwynion i gleifion, gan gynnwys manylion cyswllt AGIC, y bwrdd iechyd lleol a'r gwasanaeth eirioli dros gleifion, sef Llais. Dim ond un gŵyn a oedd ar gael i'w hadolygu, a gwelsom y triniwyd â hi yn unol â pholisi'r practis.

Gwelsom fod polisi'r practis ar gyfer rheoli digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r Dyletswydd Gonestrwydd yn addas a bod hyfforddiant yn orfodol i bob aelod o'r staff. Er

nad oedd unrhyw ddigwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â'r Ddyletswydd Gonestrwydd i ni eu hadolygu, cawsom sicrwydd y byddai'r broses a oedd ar waith yn ymdrin â'r rhain yn unol â'r canllawiau gofynnol.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod dull rhagweithiol o wella ansawdd ar waith a bod yr holl weithgareddau gwella ansawdd gorfodol yn cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau cynhwysfawr a rheolaidd o gofnodion cleifion, ansawdd delweddau radiograffig, prosesau presgripsiynu gwrthfiotigau yn ogystal ag archwiliadau atal a rheoli heintiau. Nid oedd y practis wedi cynnal unrhyw weithgareddau datblygu tîm, fel y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth sydd ar gael drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Trafodwyd manteision y Matrics Aeddfedrwydd â'r practis, a chadarnhaodd ei fod yn ystyried cyflwyno'r adnodd gwella ansawdd neu'r rhai sydd ar gael drwy Gymdeithas Ddeintyddol Prydain.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Esboniodd y staff sut roeddent yn cynnal cydberthnasau gwaith da gyda phartneriaid eraill yn y system iechyd, gan gynnwys y feddygfa a'r fferyllfa leol. Soniodd y staff hefyd am y gydberthynas gadarnhaol a oedd ganddynt â'r Bwrdd Iechyd Lleol. Gwelsom fod proses briodol ar waith i fonitro a chynnal atgyfeiriadau at bartneriaid gofal iechyd ac atgyfeiriadau gan bartneriaid gofal iechyd.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Llandeilo

Dyddiad yr arolygiad: 05 Awst 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau	Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Llandeilo

Dyddiad yr arolygiad: 05 Awst 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

	Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Nodwyd gennym fod gwybodaeth wedi'i chofnodi'n anghywir yn nodiadau'r cleifion, ac roedd angen gwella hyn. Gwelsom nad oedd tri chofnod yn amlinellu sgrinio ar gyfer canser y geg nac asesiadau risg ar geudodau, perio na thraul dannedd. Nid oedd dau gofnod ar wahân yn cofnodi cydsyniad ar sail gwybodaeth yn ddigonol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cyflawn eu cadw yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.	Rheoliad 20 (1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Rydym wedi trefnu cwrs DPP wyneb yn wyneb ar y safle ar “Gadw Cofnodion” ar gyfer y practis cyfan.	Prif Ddeintydd	22 Hydref 2026

2.	Roedd un aelod o'r tîm gweinyddu wedi cael ei dystysgrif DBS yn 2016. Cynhaliwyd asesiad risg yn 2022, ond nid oedd wedi cael ei adolygu ers y dyddiad hwnnw. Mae gwiriadau DBS priodol yn rhoi sicrwydd bod y staff yn addas ac yn gymwys i gyflawni eu rolau yn y practis.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y cynhelir gwiriadau addasrwydd i weithio parhaus ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn y practis.	Rheoliad 18(1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Byddwn yn asesu risg yn flynyddol ar gyfer y tîm cyfan	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw: Adam Llewellyn

Swydd: **Prif Ddeintydd** **Dyddiad:** 11 Medi 2026